Newyddion Archif 5

English

Newyddion Diweddaraf: 5

Ymweliad â Thŷ'r Arglwyddi

Myfyrwyr o Ysgol Maesydderwen, Ystradgynlais,, enillwyr gwobr yr Arglwydd Brooke o Alverthorpe, yn sôn am eu hymweliad â Thŷ'r Arglwyddi'

Ar 14eg Tachwedd 2017, cawsom gyfle i ymweld â'r Senedd i ddysgu sut mae'r Llywodraeth yn gweithredu. Yn garedig iawn cawsom gyfle i dreulio prynhawn gyda'r Arglwydd Brooke o Alverthorpe, a roddodd daith gynhwysfawr i ni o Dŷ'r Arglwyddi.

Yn gyntaf dangoswyd y gelf a'r bensaernïaeth drawiadol, rhan annatod o'n treftadaeth Brydeinig. Y mae'r adeiladau wrth gwrs yn balas yn swyddogol ac maent yn parhau hyd heddiw dan awdurdod y Frenhines. Yn sicr y mae 'Palas San Steffan' yn enw teilwng ar y lle, gyda'i luosogrwydd o gelf gwbl ryfeddol a nenfydau a muriau wedi'u heuro, yn rhemp o symbolaeth a chyfoeth. Roedd hwn yn gyfle gwych i ymestyn ein gwybodaeth am hanes ein gwlad.

Yn dilyn y daith hon, cawsom fynd i'r siambr ddadlau yn y Senedd. Gwelsom seremoni agor Tŷ'r Arglwyddi wrth i'r byrllysg gyd-deithio gyda'r Arglwydd Lefarydd i mewn i'r Siambr a'i osod ar y Sach Wlân (mae'r Sach Wlân ei hun yn symbol o'r cyfoeth a ddaeth trwy'r Ymerodraeth Brydeinig). Gwelsom nifer o ddadleuon llafar yn Nhŷ'r Arglwyddi, gan roi profiad uniongyrchol i ni o'r hyn sydd i'w weld ar y teledu.

Yna symudon ni i oriel Tŷ'r Cyffredin lle cawsom gyfle i glywed dadl ar bwnc dadleuol Brexit. Roedd hon yn ddadl fywiog a digon ffraeth, gydag AS fel Frank Field, Hillary Benn a Kenneth Clark yn cyfrannu'n angerddol ar bwnc dyddiad gadael Ewrop.

At hyn, roeddem wedi cyffroi yn arw i weld ffigurau gwleidyddol enwog a nodedig, fel yr Arglwydd Alan Sugar, Jacob Rees-Mogg a'r Arglwydd Menzies Campbell. Yn bennaf oll er hynny cawsom y fraint o dreulio'r diwrnod gydag Arglwydd sydd wedi eistedd yn y siambr am 20 mlynedd ac sydd wedi llwyddo i wneud newidiadau mawr ym meysydd iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Yng nghwmni'r Arglwydd Brooke, treulion ni amser yn Neuadd San Steffan ac roeddem yn ddigon ffodus i gael mynediad i is-grofft Capel y Santes Fair. Cawsom sefyll yn y cwpwrdd brwsys lle treuliodd Emily Davison noson cyfriflad 1911 a gweld y plac yr oedd Tony Benn wedi'i sicrhau i goffáu'r ffaith hon! I gwblhau'r diwrnod, safon ni ar y teras yn edrych dros yr Afon Tafwys, gwelon ni swyddfeydd modern Tŷ Portcullis a chawsom ein tretio i de a sgonau yn ystafell de Tŷ'r Arglwyddi. Dyna ddiwrnod i'r brenin!

Rydym yn ddiolchgar iawn i MYDG am gyflwyno'r cyfle bythgofiadwy hwn i ni ac rydym yn estyn ein diolchiadau i'r Arglwydd Brooke am ei groeso ac am roi blas ar wleidyddiaeth Prydain i ni. Rydym ill dau yn gobeithio y byddwn ryw ddiwrnod mewn sefyllfa i gael dylanwad cadarnhaol cyffelyb ar gymdeithas ac i gael dweud ein dweud.

Diolch yn fawr. Daniel Edwards ac Anya Welch, Ysgol Maesydderwen

---

Seremoni Wobrwyo 2017

YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL NANTGAREDIG AC YSGOL GYNRADD BAGLAN

Cynhaliwyd Seremoni 2017 yng Nghanolfan Halliwell, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - mewn theatr hyfryd ac addas iawn ar gyfer digwyddiad o'r fath. Croesawodd Dr Dylan E. Jones, Deon Cyfadran Addysg a Chymunedau Y Drindod Dewi Sant bawb i'r Seremoni a chafwyd egwyl gerddorol gan Fand Mawr Sir Gaerfyrddin. Unwaith eto, fe'n diddanwyd gan gymeriad hanesyddol, y môr leidr Barti Ddu neu Bartholomew Roberts o Sir Benfro (neu'r actor Dion Davies) o gwmni theatr 'Mewn Cymeriad' a gododd fraw ar y disgyblion ac a gynorthwyodd i gyflwyno gwobrau'r sectorau cynradd.

Cyflwynwyd y gwobrau gan aelodau pwyllgor MYDG:

- Y Cyfnod Sylfaen a'r Ysgolion Arbennig: Geraint Bevan
- Ysgolion Cynradd: Nia Williams a Dr Stuart Broomfield
- Ysgolion Uwchradd: Dr Dylan E Jones

Cyflwynodd Alun Morgan, Is-Gadeirydd MYDG Wobr Eustory a daeth ef â'r cyfarfod i ben.

Newyddion - Archif

Newyddion Archif 6

Newyddion Archif 5

Newyddion Archif 4

Newyddion Archif 3

Newyddion Archif 2

Newyddion Archif 1

Enillwyr tarian Amgueddfa Cymru am y cais gorau ym mhob categori ac enillydd gwobr Eustory

Gwbor Sefydliad Hodge £750
YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL MAERDY

Gwbor Sefydliad Hodge £750
YSGOL ARBENNIG PORTFIELD



Sefydliad Moondance Gwobr £750
YSGOL GYNRADD BAGLAN

YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL NANTGAREDIG

Gwobr Sefydliad Moondance £750
COLEG CYMUNEDOL TONYPANDY

Gwobr Eustory:
YSGOL MAES GARMON
YSGOL TRYFAN



Eleni bydd disgyblion o'r ysgolion arobryn yn mynychu Academi Ewropeaidd yn Berlin yn Hydref 2017.

Adroddiad Cryno Enillwyr 2017

© WHSI. 2020. The Welsh Heritage Schools Initiative is an independent registered charity (No. 1048155). Its Trustees are: Catrin Stevens, Dr Stuart Broomfield, Alun Morgan.
Privacy Policy